



Eich cyf: P-05-868
Ein cyf: KW/05326/19

David John Rowlands AC
Cadeirydd – y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

15 Chwefror 2019

Annwyl David John Rowlands AC,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Chwefror yn ymwneud â deiseb P-05-868
“Diogelwch Dŵr/Atal Boddi ac effeithiau Sioc Dŵr Oer i'w haddysgu ym mhob Ysgol
yng Nghymru.”

Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn datblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen
arnynt i'w cadw'n ddiogel ac yn iach yn rhan hanfodol o'r broses o'u paratoi ar gyfer bywyd
a chefnogi eu hiechyd a'u lles. Hefyd, mae'n bwysig eu bod yn gallu cadw eu hunain yn
ddiogel mewn amgylcheddau ffisegol a chymdeithasol amrywiol, gan gynnwys mewn dŵr ac
wrth ymyl dŵr.

Mae addysg gorfforol yn elfen orfodol o'r cwricwlwm presennol ar gyfer dysgwyr Cyfnod
Allweddol 2 (7-11 oed), Cyfnod Allweddol 3 (11-14 oed) a Chyfnod Allweddol 4 (14-16 oed).
Mae'r rhaglen astudio yn rhoi cyfle i ddysgwyr gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o
weithgareddau, sydd wedi'u trefnu ar sail 4 maes. Un o'r meysydd hyn yw “gweithgareddau
antur”.

Trwy'r maes gweithgareddau antur, mae dysgwyr yn datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i
nofio, cadw'n ddiogel a themlo'n hyderus yn y dŵr. Yng Nghyfnod Allweddol 2, mae hyn yn
golygu y dylid addysgu dysgwyr i "ddatblygu sgiliau diogelwch a goroesi personol yn y dŵr"
a "nofio heb gymorth am gyfnod penodol o amser".

Hefyd, mae cyfleoedd ar gael i ysgolion ymgysylltu â dysgu am ddiogelwch personol fel
rhan o addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Mae ABCh yn rhan o'r cwricwlwm
sylfaenol ar gyfer pob disgybl cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir. Mae'r fframwaith
anstatudol ar gyfer ABCh yn cynnwys 5 thema, ac un ohonynt yw “iechyd a lles emosiynol”.

Trwy'r thema ‘iechyd a lles emosiynol’ mae dysgwyr yn derbyn cymorth i ddatblygu
dealltwriaeth o'r angen i gymryd cyfrifoldeb am ddiogelwch personol a diogelwch grŵp
mewn lleoliadau cymdeithasol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd
gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding
in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fel y nodir yn eich llythyr, mae Bagloriaeth Cymru hefyd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ymgysylltu â heriau sy'n cefnogi eu hiechyd a'u lles. Ym mis Ebrill 2017, mynychais lansiad Her Gymunedol Dŵr Agored Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ar gyfer Bagloriaeth Cymru. Mae'r her hon yn datblygu gwybodaeth dysgwyr am y peryglon sy'n gysylltiedig â dŵr agored, fel llynnoedd chwareli, cronfeydd dŵr, camlesi ac afonydd, gyda'r nod o sicrhau bod dysgwyr yn rhannu'r wybodaeth ag eraill yn yr ysgol a'r gymuned.

Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru yw cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn unigolion iach a hyderus sy'n gwybod sut i gael gwybodaeth a chymorth i gadw'n ddiogel ac yn iach. Bydd y pedwar diben yn ganolog i'r cwricwlwm newydd ac maent yn fan cychwyn ar gyfer pob penderfyniad yn ymwneud â datblygu'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu.

Mae'r cwricwlwm newydd yn seiliedig ar 6 Maes Dysgu a Phrofiad (MDPh), sy'n cynnwys lechyd a Lles. Mae pob MDPh yn cynnwys "datganiadau o'r hyn sy'n bwysig", sy'n helpu ymarferwyr i nodi gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau sy'n bwysig i ddealltwriaeth dysgwr o'r MDPh a chyflawni'r pedwar diben.


Datblygwyd y datganiadau o'r "hyn sy'n bwysig" ar gyfer y MDPh lechyd a Lles gan ysgolion arloesi, a rhoddwyd ystyriaeth fanwl i sut y gallai cwricwlwm newydd helpu ysgolion i gyflwyno nofio, fel rhan o ddull gweithredu cyffredin ym maes lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. Nodwyd bod pwysigrwydd nofio yn mynd y tu hwnt i fod yn fodd o weithgarwch corfforol a'i fod yn elfen bwysig o gadw dysgwyr yn ddiogel. O ganlyniad, mae datganiadau o'r "hyn sy'n bwysig" yn y MDPh lechyd a Lles yn helpu i gyflwyno nofio trwy nodi bod yn rhaid i ddysgwyr gael cyfleoedd i fod yn gorfforol egniol mewn amgylcheddau amrywiol, gan gynnwys wrth ymyl dŵr, a bod angen iddynt wneud penderfyniadau diogel mewn sefyllfaoedd ac amgylcheddau amrywiol.

Mae ysgolion arloesi wedi gweithio gydag arbenigwyr gwahanol i ddatblygu'r MDPh lechyd a Lles, gan gynnwys Chwaraeon Cymru, sefydliadau addysg uwch ac lechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae *Dyfodol Llwyddiannus* wedi ein herio i feddwl eto am ein hagwedd at y cwricwlwm. Mae'n nodi'n glir bod lefel uchel o ragnodi a manlyder ar lefel genedlaethol yn cyfyngu ar "y llif a'r dilyniant yn y dysgu gan blant a phobl ifanc". O ganlyniad, mae angen i ni sicrhau nad yw'r cwricwlwm newydd yn darparu rhestr gynhwysfawr o gynnwys manwl a fyddai'n mynd yn gymhleth ac yn orlawn yn gyflym iawn. Mae'n rhaid i'r cwricwlwm roi'r hyblygrwydd i weithwyr proffesiynol ddewis y cynnwys penodol sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr ac yn adlewyrchu eu cyd-destunau lleol. Gydol y broses, buom yn gweithio gydag ymarferwyr i sicrhau cydbwysedd priodol rhwng hyblygrwydd ar lefel ysgol ac eglurder ar lefel genedlaethol.

Bydd modd cyflwyno adborth ar y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru ym mis Ebrill 2019. Fe'i cyflwynir yn raddol wedyn o fis Medi 2022, gan ddechrau mewn dosbarthiadau meithrin hyd at Flwyddyn 7, ac fe'i cyflwynir fesul blwyddyn wedyn hyd at 2026.

Yn gywir



Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg